**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Gorffennaf 29, 2009 am 7.30pm.**

**Presennol:** Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Edward Thomas, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Julia Jones, y Cyng Roy Davies, y Cyng Christopher Parish, y Cyng Fran Murphy y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Ros Bellamy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (y Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Hugh Towns

**Cof 130 / Gorffennaf / 09 I drafod y cynigion drafft ar gyfer Datblygiad Preswyl y Chwarter Gogleddol.**

Arweiniwyd y drafodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, y Cyng Roy Davies. Croesawodd y Cyng Davies benderfyniad CSC i ymestyn y cyfnod ymgynghori i 12 wythnos, hynny yw tan ganol Tachwedd 2009. Teimlodd fod hyn yn bwysig dros ben gan fod y Dref yn haeddu'r amser a'r llwyfan i drafod y datblygiad yn llawn.
Roedd y Cyngor yn pryderu y bydd datblygiad mor fawr yn dinistrio natur a chymeriad y dref bresennol.
Amlygodd y cyfarfod nifer o bryderon a chwestiynau eraill y dymunai'r Cyngor gael mwy o gyfarwyddyd a gwybodaeth yn eu cylch oddi wrth ddatblygwyr a swyddogion Adran Gynllunio Sir Gâr er mwyn gallu llunio barn am y cynigion.
Cynigwyd gan y Cyng Roy Davies y dylid ysgrifennu llythyr at y Pennaeth Cynllunio yn CSC i ofyn a allai Swyddog Cynllunio ddod i annerch y Cyngor. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei anfon at y wasg ac i'r aelod Cynulliad lleol Rhodri Glyn Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm